




<p><b>Yr hanner tymor hwn: Sgiliau, Gwybodaeth a Dealltwriaeth i'w datblygu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>● <b>Sgiliau (Erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu, bydd y myfyrwr <b>YN GALLU</b>):</b> nodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhwng tonnau ardraws a thonau arhydol; deall sut i labelu osgled, tonfedd ac amledd ton; cyfrifo buanedd ton drwy edrych ar ei amledd a'i donfedd; lluniadu diagramau plân o sut mae tonnau'n cael eu plygu a'u hadlewyrchu; nodi'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar fuanedd ton, rhestru'r mathau o donnau seismig gan ddisgrifio eu priodweddau, adnabod strwythur y Ddaear gan ddefnyddio seismogram.</li> <li>● <b>Gwybodaeth (Erbyn diwedd y Rhaglen Ddysgu, bydd y myfyrwr <b>YN GWYBOD</b>):</b> beth yw priodweddau tonnau ardraws ac arhydol; ystyr y termau osgled, tonfedd ac amledd; beth sy'n achosi i don blygu ac adlewyrchu wrth fynd drwy ddeunyddiau mwy dwys; bod dyfnder dŵr yn effeithio ar fuanedd y don sy'n teithio, fod tonnau cynradd yn gallu teithio trwy hylifau a solidau, tonnau eilaidd dim ond yn gallu teithio trwy solidau, tonnau arwyneb yn teithio ar hyd arwyneb y Ddaear.</li> <li>● <b>Dealltwriaeth (Bydd y myfyrwr <b>YN DANGOS</b> eu dealltwriaeth):</b> trwy ateb amrywiaeth o gwestiynau sy'n canolbwyntio ar 'ddisgrifio', 'egluo', 'cymharu', 'dadansoddi', a 'chynllunio'.</li> </ul>		<p><b>Termau/Geiriau Allweddol:</b>          TONFEDD, OSGLED, AMLEDD, BUANEDD TON, ARHYDOL, ARDRAWS, ADLEWYRCHIAD, PLYGIANT, BLAENDON, TONNAU PLÂN, TANC CRYCHDONNI, TONNAU SEISMIG, CRAMEN, MANTELL, CRAIDD ALLANOL, TONNAU CYNRADD, TONNAU EILAIDD, TONNAU ARWYNEB, PARTH CYSGODOL</p>
<p><b>RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 1 a 2:</b></p> <p><b>Uned 1.5: Nodweddion Tonnau</b></p> <p><b>Gwers 1</b> - Bydd y myfyrwr yn gwybod mai trosglwyddo egni o un pen i ddeunydd i'r pen arall y mae ton. Bydd y myfyrwr yn gallu disgrifio'r gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng tonnau ardraws a thonau arhydol.</p> <p><b>Gwers 2</b> - Bydd y myfyrwr yn gwybod beth yw ystyr y termau:  <b>Osgled</b> – Dadleoliad (<i>displacement</i>) uchaf y don o ddisymudedd i'r pwynt uchaf.  <b>Amledd</b> – Nifer y tonnau sy'n cael eu cynhyrchu mewn un eiliad  <b>Tonfedd</b> – Hyd ton.</p> <p><b>Gwers 3</b> - Bydd y myfyrwr yn deall sut i luniadu tonnau plân ac wedyn yn gallu lluniadu cynrychioliad graffigol o don ardraws a thon arhydol.</p> <p><b>Gwers 4</b> - Bydd y myfyrwr yn gallu disgrifio sut mae blaendonnau plân yn cael eu hadlewyrchu neu eu plygu trwy ddeunyddiau mwy dwys.</p> <p><b>Gwers 5</b> - Bydd y myfyrwr yn deall beth yw adlewyrchiad ac yn gallu lluniadu a chyfrifo ongl adlewyrchiad.</p> <p><b>Gwers 6</b> - Bydd y myfyrwr yn gallu disgrifio plygiant yn nhermau newid mewn buanedd, tonfedd a dwysedd y defnydd.</p>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhestru gwahaniaethau ac enghreifftiau o'r mathau o donnau.</li> <li>2. Defnyddio termau allweddol yn gywir i gymharu tonnau ardraws yn gywir.</li> <li>3. Cynhyrchu diagram wedi'i labelu o don ardraws a thon arhydol.</li> <li>4. Lluniadu diagramau o flaendonnau'n cael eu hadlewyrchu neu eu plygu.</li> <li>5. Labelu ongl adlewyrchiad ac ongl drawiad ton wedi'i phlygu a thon wedi'i hadlewyrchu.</li> <li>6. Egluro plygiant a beth sy'n achosi i donnau blygu trwy ateb cwestiwn AYE.</li> </ol>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd 3</b></p> <p>Cwblhau hen gwestiynau papur arholiad ar ffurf cwis Google Classroom</p> <div style="border: 2px solid red; padding: 5px; width: fit-content; margin: 10px auto;"> <p><b>Marc:</b></p> </div>

<p><b>RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 3 a 4:</b></p> <p><b>Wythnos 3 – Ffug Arholiad.</b> Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd wrth gwblhau hen gwestiynau o bapurau arholiadau CBAC ar ffurf ffug arholiad.</p> <p><b>Gwers 7</b> - Bydd myfyrwyr yn gallu cywiro unrhyw gam-syniadau yn i'w ffug arholiad ag ateb i adborth gan ddefnyddio beiro goch.</p> <p><b>Gwers 8</b> - Bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwyso'r hafaliadau canlynol:        Buanedd ton = tonfedd x amledd        Pellter = buanedd x amser</p> <p><b>Gwers 9</b> - Bydd y myfyrwyr yn gwybod sut i ymchwilio i wahanol ffactorau sy'n effeithio ar fuanedd ton. Bydd myfyrwyr yn gallu perfformio'r gwaith ymchwil yn y labordy gan ddilyn asesiad risg neu fydd yn bosib defnyddio fideo o wefan CBAC.</p>	<p style="text-align: center;"></p> <div style="border: 1px solid blue; padding: 5px; text-align: center;">Ffug Arholiad</div> <div style="border: 1px solid red; padding: 5px; text-align: center; margin-top: 10px;">Marc</div> <div style="border: 1px solid red; padding: 5px; text-align: center; margin-top: 10px;">Gradd</div>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Bydd disgyblion yn gallu defnyddio eu sgiliau a'u dealltwriaeth o waith TGAU Ffiseg gan ateb hen gwestiynau papur arholiadau.</li> <li>Ateb hen gwestiynau arholiad ar gyfrifo buanedd ton.</li> </ol>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd 3</b></p> <p style="text-align: center;">Cynhyrchu adnodd adolygu ar gyfer AC.</p> <div style="border: 1px solid red; padding: 5px; text-align: center; margin-top: 10px;">Wedi cwblhau?</div>
<p><b>RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 5 &amp; 6:</b></p> <p><b>Uned 1.7: Tonnau Seismig</b></p> <p><b>ACD 1 - Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd wrth gwblhau asesiad crynodynol a fydd yn cynnwys cwestiynau o hen bapurau arholiad CBAC.</b></p> <p><b>Gwers 10</b> - Bydd myfyrwyr yn gwybod priodweddau tonnau P, tonnau S a thonau arwyneb seismig, yn nhermau eu natur, eu buanedd a'u gallu i dreiddio drwy ddefnyddiau gwahanol.</p> <p><b>Gwers 11</b> – Bydd myfyrwyr yn gwybod fod tonnau P yn donnau arhydol a thonau S yn donnau ardraws</p> <p><b>Gwers 12</b> - Bydd myfyrwyr yn gallu dehongli cofnodion seismig wedi'u symleiddio, er mwyn gallu adnabod yr oediad amser rhwng cyrhaeddiad y tonnau P a'r tonnau S a defnyddio'r cofnodion seismig o nifer o orsafoedd i ddarganfod ble mae uwchganolbwynt daearyn.</p> <p><b>Gwers 13</b> - Bydd myfyrwyr yn gallu disgrifio ac egluro llwybr tonnau P a thonau S drwy'r Ddaear.</p> <p><b>Gwers 14</b> - Bydd myfyrwyr yn gallu disgrifio sut mae presenoldeb yr ardal gysgodol ton S fel mae'n cael ei ddangos ar gofnodion seismig wedi arwain daearegwyr at fodel o fantell sy'n solid a chraidd sy'n hylifol.</p>	<p style="text-align: center;"></p> <div style="border: 1px solid blue; padding: 5px; text-align: center;">ACD1</div> <div style="border: 1px solid red; padding: 5px; text-align: center; margin-top: 10px;">Marc</div>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Gallu nodi'r gwahaniaeth rhwng tonnau P a thonau S.</li> <li>Lluniadu tonnau P a thonau S a labelu'r diagram.</li> <li>Gallu cyfrifo'r oediad amser rhwng tonnau P a thonau S drwy ateb hen gwestiynau arholiad.</li> <li>Labelu gwahanol rhannau o graidd y Ddaear. Llunio llwybr tonnau P a S trwy'r Ddaear.</li> <li>Labelu rhanbarthau cysgodion y Ddaear. Defnyddio diagramau i ddisgrifio sut mae rhain yn bodoli.</li> </ol>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd 3</b></p>
<p><b>RhDd 3 – Deilliannau Dysgu Wythnos 7:</b></p> <p><b>Gwers 15 – ACD2 Bydd y myfyrwyr yn gallu defnyddio ac yn dangos gwybodaeth a sgiliau newydd wrth gwblhau asesiad crynodynol a fydd yn cynnwys cwestiynau o hen bapurau arholiad CBAC.</b></p>	<p style="text-align: center;"></p> <div style="border: 1px solid blue; padding: 5px; text-align: center;">ACD1</div> <div style="border: 1px solid red; padding: 5px; text-align: center; margin-top: 10px;">Marc</div>	<p><b>Meini Prawf Llwyddiant:</b></p>	<p><b>Gwaith Cartref RhDd 3</b></p>

